# Adroddiad Cyfarfod 11:10:23 Twm Elias

Cynhaliwyd ein hail gyfarfod o'r gangen nos Fercher diwethaf yn y Neuadd.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein llywydd Jennifer Roberts a braf oedd gweld cynifer wedi mynychu'r noson.

Yn ystod y mis diwetha bu sawl achos i longyfarch tair o'n haelodau ar ddod yn neiniau unwaith eto. Cafodd Anita ŵyr bach – Caio Garth, mab i Sion a Rachel. Cafodd Jen wyres fach – Beti, merch i Aled a Casi, a Wendy ŵyr bach - mab i Nora ac Alec.

Dymunwyd gwellhad buan i Falmai sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Hysbyswyd yr aelodau o ddigwyddiadau y tymor i ddod.

• Cystadleuaeth creu cerdyn Nadolig mewn unrhyw gyfrwng ar gyfer Nadolig 2024.

• Cystadleuaeth cerdd neu farddoniaeth wreiddiol i'w rhoi yn y cerdyn.

Cardiau a'r cerddi i gyrraed y Ganolfan genedlaethol erbyn Rhagfyr y 10fed.

• Diwrnod cymunedol, Sadwrn y 14eg o Hydref ym mhrifysgol Bangor. Pob math o weithgareddau hwyliog i bob oedran, peintio wynebau, crefftau, perfformiadau, teithiau hanes y Brifysgol a darganfod archifau a'u casgliadau.

Yn ystod y mis yma mynychodd rhai o'n swyddogion gyfarfod Rhanbarth Arfon.

Rydym fel cangen yn llongyfarch Anne Elis fel Llywydd Rhanbarth Arfon am gyfnod o ddwy flynedd. Wrth drosglwyddo'r awenau dywedodd y cyn Lywydd Glenda Jones fod y Rhanbarth mewn dwylo da. Yn dilyn ymddiswyddiad Janet Roberts fel ysgrifennydd y Rhanbarth, cytunodd Jennifer Roberts ymgymryd â'r swydd drwy gyfnod Anne fel Llywydd.

Ein Llywydd Cenedlaethol bellach yw Geunor Roberts, a'r elusen mae hi wedi ddewis i'w gefnogi yw Ambiwlans Awyr Cymru. Rydym yn cael ein hannog i gasglu sgarffiau a chadwyni ar gyfer eu gwerthu yn digwyddiadau

rhanbarthol a chenedlaethol MYW. Gofynnwyd i ni gasglu  rhai erbyn y Ffair Aeaf, Tachwedd 27/28 ac i barhau i'w casglu drwy gydol y flwyddyn.

Cracyr Dolig – Bydd pob rhanbarth yn gwneud eitem ar Zoom ar nos Fawrth Rhagfyr 19. Mae Rhanbarth Arfon wedi gofyn i Cecile Roberts o Fethel sgwrsio am draddodiadau Nadoligaidd gwlad Ffrainc, felly gobeithio y bydd amryw ohonom yn gallu bod ar Zoom i wrando arni.

Mae noson Adweitheg yng nghwmni Sian Elen- nos Lun 23ain o Hydref am 7.30. Gellir cael y linc gan Jen neu Meira.

Cwis Hwyl – Cynhelir y Cwis Hwyl ar Nos Wener, Tachwedd 10 yma yn Neuadd Bethel. Dosbarthwyd ffurflen i'r aelodau rhoi eu henwau i lawr i greu tim.  Bydd 4 ym mhob tim a gall bob cangen gael mwy nag un tim. Bydd y Gangen yn talu am bawb fydd yn cymryd rhan (£1).

Mae y Pwyllgor wedi gwirfoddoli i wneud paned a theisennau ar y noson. Y gost fydd £5 am luniaeth a raffl a bydd Cangen Bethel yn cadw yr arian yma.

Mae y gangen yn cynnal gweithgaredd i godi arian ac mae dyddiadur wedi cael ei anfon o gwmpas. Gellir prynu dyddiad am £1 a gofynnir i'r aelodau werthu 10 dyddiad i'w ffrindiau a'u teuluoedd os yn bosib. Y gwobr yw taleb £25 M&S.

Cinio Nadolig – dosbarthwyd ffurflen i bawb ddewis bwydlen ar gyfer y cinio Nadolig a gynhelir eleni yn Bistro'r Felin. Gofynnwyd i bawb ddychwelyd eu ffurflenni a'r arian parod erbyn Tachwedd yr 8fed.

Pleser mawr oedd estyn croeso i Twm Elias i'n plith. Mae'n llais ac yn wyneb cyfarwydd ar y cyfryngau Cymraeg. Mae'n naturiaethwr, darlithydd ac awdur nifer o lyfrau byd natur. Mae'n arbennigwr ar hanes amaethyddiaeth, llên gwerin ac arwyddion tywydd.  Mae hefyd yn gyfrannwr rheoliaidd i raglen 'Galwad Cynnar' ar foreuau Sadwrn ar Radio Cymru.

Testun ei sgwrs mis yma oedd 'O'r Swyn i'r Stethosgop'. Roedd yn sgwrs hynod o ddifyr yn sôn am credoau cyntefig am iechyd ac afiechydon. Bu'n sôn am lysiau a phlanhigion llesol a welwn o'n cwmpas bob dydd a'u defnydd hyd y dydd heddiw. Cafwydd hanes nifer o feddygon cynnar a'u triniaethau gan gynnwys Meddygon Myddfai a'u tebyg  a sut y datblygwyd meddygaeth a thriniaethau i lawr y canrifoedd. Rhaid dweud ein bod wedi ein cyfareddu gyda'i gyflwyniad yn ei ffordd ddihafal ei hun a'r cynnwys diddorol dros ben!